| Ymyrraeth | Mannau Gwyrdd a Diogel | | | Gwyrdd | Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Oren | Cynnydd heb fwrw'r targed, ond yn gyraeddadwy o hyd |
| Arwain | Steve Morgan a Huw Jakeway | Cyfnod Adrodd | Chwarter 1 2022-23 (Ebrill - Mehefin) | Coch | Cynnydd ymhell o fwrw'r targed |

## Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau

Mae'r Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel yn parhau i weithio'n dda, gyda lefelau cryf o ymgysylltu a chydweithredu. Creodd gweithdy rhwydwaith (Mehefin 2022) waith partneriaeth pellach a chyfleoedd i gydweithio gan ennyn brwdfrydedd dros y weledigaeth hon ar draws nodau a rennir. Mae aelodaeth o'r rhwydwaith yn ehangu ac yn arallgyfeirio.

Mae cyfarfodydd partneriaeth parhaus a gwaith gan grŵp Cyfeillion Ffordd at Natur yn parhau i wella'r ardal ac atal tipio anghyfreithlon, gyda gweithgareddau cymunedol yn digwydd.

Mae Archwiliad Stryd Cymunedol ym Mhilgwenlli wedi cael ei gynnal gan Living Streets yn gynnar yn 2022 mewn sgwrs gyda thrigolion lleol. Rhestr o argymhellion gafodd eu cyhoeddi fis Gorffennaf 2022 i'w datblygu gyda phartneriaid perthnasol.

Mae mannau gwyrdd a glas wedi'u cynnwys ym mhorthol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB) Eich Casnewydd Eich Lles, a lansiwyd fis Mai 2022.

Cyfathrebu: 6ed e-gylchlythyr wedi ei gyhoeddi fis Mai 2022 yn rhannu arfer gorau ledled Casnewydd, hyrwyddo gwaith y Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel, cyfleoedd i gydweithio, adroddiadau diweddaraf, adnoddau a chyllid. Gwybodaeth ar hap wedi ei hanfon i'r Rhwydwaith rhwng cylchlythyrau.

Astudiaeth dichonoldeb Seilwaith Gwyrdd Canol y Ddinas (GI) wedi ei gwblhau fis Mawrth 2022, dogfen a rennir gobeithio gyda rhanddeiliaid a fynychodd sesiynau ymgysylltu a gynhaliwyd fis Chwefror 2022 ac i bartïon eraill sydd â diddordeb erbyn mis Gorffennaf 2022. Nodi cyfleoedd SG a'r bwriad yw bod SG yn rhan o gynlluniau creu lleoedd yn y dyfodol. Mae gwaith ar y gweill i chwilio am gylllid er mwyn gosod rhai o'r syniadau SG.

Mae Strydoedd Saffach, arolwg / ymgynghoriad Casnewydd Fwy Diogel yn fyw, gan wahodd barn ar sut i wella diogelwch ym mharciau Belle Vue, Capel a Stow Hill. Dan arweiniad Cyngor Casnewydd a Heddlu Gwent.

Mae'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd (ASG) wedi'i gwblhau. Camau nesaf fydd cysylltu â Phartneriaeth Grid Gwyrdd Gwent (PGGG) ar Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Gwent.

Cynhaliodd Pobl a Hyb Canolog CDC sesiwn rhoi planhigion am ddim ym Mhilgwenlli fis Ebrill 2022 i annog cymunedau i roi cynnig ar dyfu bwyd.

Mae prosiect Llwybr Arfordir (Dyfodol) Cymru Mae Prosiect wedi bod cynnal gweithgareddau yn 2022, mae partneriaid yn cefnogi drwy hyrwyddo'r digwyddiadau.

## Mesuriadau Perfformiad Allweddol

| Mesuriadau Perfformiad Allweddol | Targed | Gwirion-eddol | COG |
|---|---|---|---|
| % / hectarau o fannau glas a gwyrdd hygyrch *Mynegai Mannau Gwyrdd \| Meysydd Chwarae Cymru | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | |
| % Brigdwf coed *Brigdwf y DU i-Tree | Yn cael eu datblygu | | |
| Nifer o Safleoedd Pryfed Peillio CDC | 20 | I'w gadarnhau | |
| Aelodau'r rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diog | 100 | 132 | Gwyrdd |
| Nifer y bobl oedd yn bresennol yng ngweithdy diwethaf y Rhwydwaith | 30 | ↑ 35 | Gwyrdd |
| Agor cylchlythyr Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel | 130 | 135 | Gwyrdd |
| Dilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol (Twitter) | 150 | ↑ 142 | Gwyrdd |
| Argraffiadau trydar ac ymweliadau â'r proffil | 6,000 | 7,899 | Gwyrdd |
| Prosiectau cydweithredol gweithredol sy'n cyflawni gweledigaeth y Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel a Seilwaith Gwyrdd (SG) | 15 | ↑ 23 | Gwyrdd |
| Baneri Gwyrdd erbyn 2023: Cymunedol | 8 | 3 | Oren |
| Gwobr Lawn | 5 | 3 | Oren |
| Nifer y cynlluniau a strategaethau y mae'r weledigaeth Gwyrdd a Diogel / SG wedi'i hymgorffori ynddynt | 3 | 5 | Gwyrdd |
| Lleihau'r canlynol (mewn man glas gwyrdd): | (Ch4 2020 vs Ch4 2021) | | |
| Achosion o dipio anghyfreithlon | 35 | ↑ 101 | Oren |

| |
|---|
| Mae prosiect Gwyrddu Maendy Gyda'n Gilydd yn mynd rhagddo er mwyn annog mynediad i fannau gwyrdd ar gyfer iechyd a lles, ymgysylltu â gwahanol grwpiau diwylliannol yn yr ardal leol, dysgu sgiliau newydd, annog cyfathrebu, cynwysoldeb, ac amrywiaeth, hyrwyddo cynaliadwyedd, seilwaith gwyrdd, a gweithredu ar newid yn yr hinsawdd. |
| Mae'r camau gweithredu ar y gweill fel rhan o gynllun Newid yn yr Hinsawdd Sefydliadol Cyngor Dinas Casnewydd 2022-2027. |
| Cynhelir sesiynau llesiant misol mewn Coetir yn y Betws ar gyfer 2022 i 2023, yng nghoedwig CNC, gan Coed Lleol, mewn partneriaeth â Hyb y Gogledd CDC. |
| Mae Prosiect Peillio Buglife yn dod â chymunedau ynghyd i ddarganfod natur a dathlu peillwyr lleol trwy gyfrwng rhaglen o weithgareddau diddorol, cynhwysol Mae'r safleoedd allweddol yn cynnwys Gwarchodfa Natur Leol Sain Silian, Canolfan y Mileniwm Pilgwenlli, Y Twmps yn Barrackswood a The Road to Nature. |

| Prif Risgiau / Rhwystrau i gynnydd | Statws (U/C/I) | Camau Lliniaru / Y Cymorth Sydd ei Angen |
|---|---|---|
| Astudiaeth ddichonoldeb Seilwaith Gwyrdd Canol y Ddinas (SG) a chyfleoedd ffitio retro to gwyrdd heb eu gweithredu drwodd i'w rhoi ar waith. | Canolig | Archwilio rhwystrau a datrysiadau e.e., ffrydiau ariannu, cynnal a chadw, parhau i hyrwyddo'r gwerth a'r buddion lluosog (cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol). |
| Capasiti a diddordeb cyfyngedig wrth wneud cais am safleoedd safon Baner Werdd newydd. | Canolig | Trafod ffyrdd o gefnogi partneriaid, adnabod safleoedd pellach a allai wneud cais am y Faner Werdd. |
| Hen safle rhandir adfeiliedig Belle Vue ddim yn cael ei ddatblygu'n ofod cymunedol na'i wella ar gyfer natur. | Uchel | Ymholiad gyda Chyngor Dinas Casnewydd ar glirio malurion ac ati o'r tir i ddechrau. Wedi'i archwilio gyda Rhwydwaith mannau Gwyrdd a Diogel - bydd angen ymagwedd ac arweinyddiaeth amlasiantaethol i symud ymlaen. |
| Prosiectau/mannau gwyrdd a Diogel yn cael eu hoedi yn ystod y cyfnod pontio i BGC Gwent. | Canolig | Parhau i weithio gyda sefydliadau partner, grwpiau cymunedol a'r Rhwydwaith i ddarparu Mannau Gwyrdd a Diogel tra'n cefnogi BGC Gwent. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Digwyddiadau tân bwriadol | 6 | ↑ | 20 | Oren |
| Digwyddiadau eraill sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol | 12 | ↑ | 82 | Oren |

Llesiant Cymru: Dangosyddion Cenedlaethol (25, 26, 28, 29, 38, 40, 43, 44)
Mynegai Lleoedd Ffyniannus - Casnewydd 2021 Lle ac Amgylchedd Cynaliadwyedd
MALIC - Hafan (llyw.cymru) Amgylchedd Ffisegol

## Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf

| |
|---|
| Gweithio gyda CDC ar y camau perthnasol yng nghynllun Newid Hinsawdd Sefydliadol CDC. |
| Cynllunio gweithdy nesaf y Rhwydwaith ar gyfer Hydref 2022 i ddyfnhau'r gwaith partneriaeth a chyflawni nodau cyffredin, parhau i ehangu ac arallgyfeirio'r rhwydwaith |
| Parhau i ddatblygu a gweithredu'r cynlluniau cyfathrebu. |
| Archwilio posibiliadau cyllid ar gyfer syniadau Seilwaith Gwyrdd Canol y Ddinas ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor. Rhannu'r ddogfen gyda rhanddeiliaid a phartïon sydd â diddordeb. Archwilio ffyrdd o annog ac ymgysylltu â rhanddeiliaid canol y ddinas i roi SG ar waith gan gynnwys toeau gwyrdd. |
| Parhau i gryfhau cysylltiadau â Chasnewydd Ddiogelach ac is-grwpiau. |
| Cyhoeddi argymhellion y papur adolygiad cyflym. |
| Hyrwyddo'r sesiynau llesiant yng nghoetir y Betws, mentrau tyfu bwyd, cyfleoedd gwirfoddoli, ac unrhyw brosiectau eraill ar draws y Rhwydwaith. |
| Parhau i gefnogi Prosiect Uwchgynllun Pilgwenlli. Gallai grŵp mannau Gwyrdd a Diogel Pilgwenlli ganolbwyntio ar argymhellion Archwiliad Strydoedd Cymunedol Strydoedd Byw. |